**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Ebrill 22ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur
Ymddiheuriadau: Gerwyn Davies, Ian Griffith, Cyng D O Roberts
Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ifor G Edwards, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Gwyn Williams a'r Clerc.
Roedd Mr Dafydd Chilton, y cyfieithydd yn bresennol a 5 aelod o'r cyhoedd.

38.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

38.2 CYFLE I AELODAU'R CYHOEDD SIARAD – mynegodd un aelod y dymunai siarad ar Eitem 8 o'r Agenda - Cofnodi Enwau Aelodau wrth Bleidleisio.

38.3 COFNODION – aethpwyd drwy gofnodion cyfarfod 10fed Mawrth 2015, cynigiodd Ifor Edwards ac eiliodd Tecwyn Evans a chytunwyd eu bod yn gywir.

38.4 MATERION YN CODI
38.4.1 HYSBYSFWRDD GWYTHERIN – awgrymwyd symud yr hysbysfwrdd i ochr arall y ciosg a mynd i olwg ei gyflwr.
38.4.2 BLYCHAU BLODAU – mynegodd Ann Vaughan ddiddordeb yn yr eitem. Roedd y Clwb Garddio yn amcanu bod angen £300 i lenwi'r wyth blwch blodau; nid oeddynt yn awyddus i wneud cais am arian Cronfa Bro Cernyw; nid oeddynt yn hapus â safle un o'r blychau – ar ffordd Llansannan. Cynigiodd Diane Roberts ofalu am y blwch sydd ar ffordd Llansannan. PENDERFYNWYD derbyn eu pris ond i bwysleisio bod angen llenwi ffurflen gais y Gronfa.
38.4.3 TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd ateb gan y swyddog a PHENDERFYNWYD i fynegi ein siom bod pethau'n cymryd cymaint o amser.
38.4.4 BWRSARI ER COF AM IAN MACKESON SANDBACH – daeth Ms Antoinette Sandbach i'r cyfarfod a chyflwyno ei syniad h.y. bod bwrsari ar gael i berson ifanc ym Mro Cernyw yn flynyddol am £1000 – bachgen a geneth bob yn ail flwyddyn – i helpu talu costau teithio dramor i gynorthwyo eu haddysg. Awgrymodd bod panel yn cael ei sefydlu – gydag aelod o'r teulu ac aelodau o'r Cyngor Cymuned. Diolchwyd i Ms Sandbach am fynychu a PHENDERFYNWYD bydd y Cyngor yn trafod y mater ac yna cysylltu â'r teulu.
38.4.5 TWRCH YN Y FYNWENT – nid oes dim wedi ei wneud. Y Clerc i gysylltu unwaith eto.

38.5 ADRODDIAD PWYLLGOR MYNWENTYDD – cafwyd adroddiad gan Tecwyn Evans a nodwyd bod y Pwyllgor wedi derbyn pris Mr Dei Evans o £380 y toriad am y ddwy flynedd nesaf.

38.6 LLWYBRAU CYHOEDDUS – derbyniwyd cwyn gan arweinydd grwp cerdded nad oedd arwyddion priodol na mynedfa addas ar lwybrau ger Henfryn a Tŷ Mawr Gell. PENDERFYNWYD i ddiolch iddo am ei sylwadau a nodi ein bod wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar rai llwybrau ond bod arian yn brin erbyn hyn. Hefyd i ofyn i'r cerddwr gerdded llwybr 90 yng Ngwytherin lle rydym yn gofyn am bont fechan ger Ffatri ac i roi gwahoddiad iddo ddod atom i siarad. Cynigiodd Ms Antoinette Sandbach gynorthwyo hefyd os oedd angen.

38.7 CAIS CYNLLUNIO RHIF Cais Rhif 0/41630 Dileu amod rhif 10 a 12 o ganiatad cynllunio 0/38159 (adeiladu byngalo dormer 3 ystafell wely (annedd gweithiwr amaethyddol)) er mwyn caniatau i'r annedd gael ei adeiladu a'i feddiannu heb yr angen am god ar gyfer cartrefi cynaliadwy ar dir yn Tyddyn Uchaf, Llangernyw gan Mr Chris Evans. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais gan fod y 'Côd ar gyfer cartrefi cynaliadwy' wedi ei ddiddymu erbyn hyn.

38.8. CEISIADAU ARIANNOL
38.8.1 Derbyniwyd cais gan Ysgol Bro Cernyw ar gyfer teithio i Eisteddfod yr Urdd gyda grwp dawnsio a Chân Actol. Mynegodd Diane Roberts, Elen Edwards a Gwyn Williams ddiddordeb yn y cais. PENDERFYNWYD i roi £500 i'r Ysgol o Gronfa Bro Cernyw.
38.8.2 Aelwyd Bro Cernyw yn gofyn, gan nad ydynt yn mynychu Eisteddfod yr Urdd eleni, a yw'n bosib iddynt wneud cais i drosglwyddo'r arian a glustnodwyd i'r Aelwyd ar gyfer costau cystadlu' gyda'r côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. PENDERFYNWYD cytuno â hyn ac iddynt lenwi ffurflen gais newydd.

38.9 COFNODI ENW AELOD WRTH BLEIDLEISIO
Mynegodd aelod o'r cyhoedd nad oedd cyfieithiad Saesneg o'r cofnodion i'w gweld bob tro a theimlai y dylid cofnodi enwau'r rhai sy'n pleidleisio bob ffordd ar fater mewn cyfarfod o'r Cyngor. Cyflwynwyd sylwadau gan aelodau'r Cyngor – rhai yn teimlo bod mwy o bwysau ar y Clerc, sy'n gweithio rhan amser, erbyn hyn. Roedd Diane Roberts wedi bod yn edrych ar gofnodion cynghorau eraill a'i bod yn holl bwysig bod aelod yn datgan diddordeb os yw'n briodol. Trafodwyd ein cefnogaeth i gais codi sied amaethyddol yn Hendre Llwyn y Maen dro yn ôl heb yn wybod ei bod yn sied odro. Teimlai Gwyn Williams a Tecwyn Evans bod y cofnodion yn iawn fel y maent. Cafwyd cyngor gan Un Llais a SLCC yn nodi nad oedd yn arferiad enwi pawb sy'n pleidleisio oni bai bod aelod o'r Cyngor yn gofyn am hynny cyn y bleidlais a bod hyn yn ymddangos yn Rheolau Sefydlog y Cyngor. Cynigiodd Tecwyn Evans nad ydym yn cofnodi enwau o blaid ac yn erbyn ac eiliodd Ann Vaughan. Gwrthwynebodd Diane Roberts y cynnig. PENDERFYNWYD o chwe phleidlais i un nad ydym yn enwi aelodau sy'n pleidleisio yn y cofnodion. Ond PENDERFYNWYD i nodi yn y cofnodion yr amser mae cynghorydd yn dod i mewn i gyfarfod ac i roi cofnodion dwyiethiog i'r cyhoedd yn gynt. Os oedd y Clerc yn methu gwneud hyn, dylid cysylltu â chyfieithydd.

38.10 PAPUR GWYN: DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: GRYM I BOBL LEOL
Bu rhai o aelodau'r Cyngor yn edrych ar y Papur Gwyn a pharatoi sylwadau yr wythnos gynt a mynychodd Diane Roberts ac Ann Vaughan gyfarfod ym Metws y Coed yr un prynhawn i drafod y Papur. Rhoddwyd sylwadau ar Adrannau 4 a 5 o'r ddogfen. Hefyd PENDERFYNWYD i anfon y sylwadau canlynol:

- Teimlad bod y ddogfen yn un anodd iawn i ymateb iddi oherwydd, yn bennaf, bod y cwestiynau yn rhai caeedig.
- Credwn bod 'localism' yn diflannu a'r bwriad yw peidio trafod materion yn lleol. Bydd y bwriad yn mynd yn groes i ddeddf 'Localism' 2011.
- Os bydd cynghorau cymuned bychain yn gorfod ymuna â chynghorau mwy mi all hyn effeithio ar yr iaith Gymraeg ac ar gymunedau cefn gwlad. Credwn y bydd cefn gwlad Cymru yn colli ei llais.
- Rydym yn pryderu y bydd mwy o gyfrifoldeb ar gynghorwyr cymuned gan y bydd disgwyl iddynt wneud mwy o waith gwirfoddol. Hoffem wybod o le bydd y gwirfoddolwyr newydd yn dod.
- Rydym yn cefnogi sylwadau Un Llais Cymru ar y Papur Gwyn.

38.11  PENDERFYNWYD ymaelodi a Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC) ar gost o £15

38.12  CYNIGION I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS – PENDERFYNWYD anfon y cynigion canlynol:
- Ydy amcanion y Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol yn gwrthddweud y Localism Act.
- Ydy cynnwys y Papur Gwyn wedi ei basio yn barod?

38.13  DEDDF LLYWODRAETH LEOL – y Clerc i anfon copi i'r aelodau.

38.14 MABWYSIADU CIOSG FFÔN – derbyniwyd gohebiaeth gan BT a PHENDERFYNWYD i feddwl am y mater.

38.15 MATERION ERAILL
38.15.1  Y ffordd heibio toiledau Llangernyw yn anodd i gerdded arno.
38.15.2  Angen ail beintio llinellau gwyn ger Cefn Isa a'i fod yn lle peryglus.
38.15.3  Arwydd uwchben Capel Ainon wedi troi.
38.15.4  Coeden yn gwyro ger arhosfan Ainon.
38.15.5  Angen cysylltu a'r Cyng Dilwyn Roberts i gwyno nad oes ymateb i'n cwynion gan yr Adran Amgylcheddol.
38.15.6  Y twll ger Bryn yr Aur dal heb ei gau.
38.15.7  Afon Cae Chwarae Gwytherin yn bwyta mewn i'r cae a'r dorlannau yn beryglus iawn.
38.15.8  'Manhole' BT ger Yr Erw, Gwytherin – twll oddi tano.
38.15.9  Cwt yr Hers, Gwytherin – y to yn gollwng ac angen gofyn i Ms Goulbourne glirio'r gynnwys er mwyn i ni gael mynd i olwg y to.
38.15.10  Angen cysylltu a chwmni Harlequin ynglŷn a mast Pen y Fron – mae'r cwmni wedi derbyn cyllid ond nid yw'r gwaith wedi dechrau.
38.15.11  Cysylltiad y wê  yn araf iawn yn yr ardal erbyn hyn.
38.15.12  Wal pont Pandy Tudur heb ei gorffen.
38.15.13  Angen gofyn i Antoinette Sandbach ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglŷn a llwybr 90 ger Ffatri.  Byddai Tecwyn Evans yn barod i'w chyfarfod ar y safle.
38.15.14  Palmant gyferbyn a'r Graig, Llangernyw wedi cracio.
38.15.15  Scipiau - roedd y Clerc wedi canslo scipiau Llangernyw oherwydd y Diwrnod Amgylcheddol yn y pentref ond PENDERFYNWYD i archebu un i Langernyw at un Pandy a Gwytherin ac i wneud posteri a slipiau gwybodaeth.

38.16  BILIAU

| | |
|---|---|
| Canolfan Gwytherin (Hurio ystafell) | £30 |
| Y Gadlas (Hysbyseb torri mynwentydd) | £7 |
| JK & E Roberts (Mynwent Gwytherin) | £294.12 |
| Cyflog a Chostau Clerc | £871.86 |
| Cyllid y Wlad | £6.20 |
| Cyfieithu Cymunedol | £94.59 |
| CVSC | £15 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55 pm
*Cymeradwywyd y Cofnodion .Elen H Edwards............ Dyddiad ....20/5/15............................*

Community Council Meeting was held Wednesday, April 22 2015 at 7.30 pm at Pandy Tudur Community Centre
Apologies: Gerwyn Davies, Ian Griffith, Cllr DO Roberts
Present: Elen H. Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ifor G Edwards, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Gwyn Williams and Clerk.
Mr David Chilton, the translator was present and 5 members of the public.

38.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

38.2 MEMBERS OF THE PUBLIC ALLOWED TO SPEAK - one member expressed that he wished to speak on the Agenda Item 8 - Recording Names of Members in a Vote.

38.3 MINUTES - minutes of 10 March 2015 were looked at, proposed by Ifor Edwards seconded by Tecwyn Evans and agreed as an accurate record.

38.4 MATTERS ARISING
38.4.1 GWYTHERIN NOTICEBOARD - suggested moving the board to the other side of the kiosk and need to look at its condition.
38.4.2 FLOWER BOXES - Ann Vaughan expressed interest in the item. The Gardening Club estimated £300 for filling eight flower boxes; were reluctant to apply for funding from Cronfa Bro Cernyw; they were not happy with the position of the boxes - on the Llansannan road. Diane Roberts offered to care for the box on the Llansannan road. RESOLVED to accept their price but to emphasize the need to complete an application form to the Cronfa Bro Cernyw.
38.4.3 LLANGERNYW TOILETS – a response was received from Conwy but RESOLVED to express our disappointment that things are taking so long.
38.4.4 BURSARY IN MEMORY OF IAN MACKESON SANDBACH - Ms Antoinette Sandbach came to the meeting and presened her idea that bursary could be set up to young people in the Bro Cernyw area annually for £1000 - a boy and a girl every other year - to help meet the costs of travelling abroad to support their education. She suggested that a panel be established - with family members and members of the Community Council. Ms Sandbach was thanked for attending and RESOLVED that the Council will discuss the issue and then contact the family.
38.4.5 A MOLE IN THE CEMETERY - nothing has been done. The Clerk to contact again.

38.5 CEMETERY COMMITTEE REPORT - it was reported by Tecwyn Evans that the Committee had decided on a price of £380 per cut by Mr Dei Evans for the next two years.

38.6 PUBLIC PATH - received a complaint from a walking group leader that there was not appropriate signage or suitable access routes near Henfryn and Tŷ Mawr Gell. RESOLVED to thank him for his comments and noted that we have done maintenance work on some routes but that money is tight now. In addition to ask the leader to walk path 90 in Gwytherin where we are asking for a small bridge near Factory and to invite him to come to us to talk. Ms Antoinette Sandbach also offered to assist if necessary.

38.7 PLANNING APPLICATION NO Application No. 0/41630 Removal of condition no.10 and 12 of planning permission 0/38159 (3 bedroom dormer bungalow construction (agricultural workers dwelling)) to allow the dwelling to be built and occupied without the

the need for a code for sustainable homes on land at Tyddyn Uchaf, Llangernyw by Mr Chris Evans. RESOLVED to support the application as the 'Code for sustainable homes' has been canceled by now.

38.8. FINANCIAL APPLICATIONS

38.8.1 A request was received by Ysgol Bro Cernyw towards travelling to the Urdd Eisteddfod with dancing Group and Action Song. Diane Roberts, Elen Edwards and Gwyn Williams expressed interest in the application. RESOLVED to give £500 to the School from Cronfa Bro Cernyw.

38.8.2 Aelwyd Bro Cernyw asking, because they are not attending the Urdd Eisteddfod this year, is it possible for them to apply to transfer money earmarked to cover the costs of competing with the choir in the National Eisteddfod. RESOLVED to agree with this and for them to complete a new application form.

38.9 RECORDING NAMES OF MEMBERS VOTE

Member of the public expressed that there was no English translation of all the minutes on the website and he felt that the minutes should record the names of those voting each way on the issue at a meeting of the Council. Representations were made by Council members - some feel that there is more pressure on the Clerk now, who works part time. Diane Roberts has been looking at the records of other councils and it is imperative that members state interest in items on Agenda if appropriate. Discussed our support to erecting agricultural shed in Hendre Llwyn y Maen not knowing that it would be a milking shed. Gwyn Williams and Tecwyn Evans felt that the records are fine as they are. There was advice from One Voice and SLCC noting it was not custom to name everyone who vote unless a member of the Council so requests before the vote and that this appears in the Council Standing Orders. Tecwyn Evans proposed that we do not record the names for and against, seconded by Ann Vaughan. Diane Roberts opposed the proposal. RESOLVED six votes to one that we do not name the members voting in the minutes. But RESOLVED to note in the minutes the time a councillor comes into a meeting and to provide public bilingual records sooner. If the Clerk is unable to do this, she should contact a translator.

38.10 WHITE PAPER: THE LOCAL GOVERNMENT REFORM: POWER TO LOCAL PEOPLE

Some Council members looked at the White Paper and prepared comments the previous week and Diane Roberts and Ann Vaughan attended a meeting in Betws y Coed the same afternoon to discuss the paper. Commented on Sections 4 and 5 of the document. Also RESOLVED to forward the following comments:

- A feeling that the document was extremely difficult to respond because, primarily, that the questions are closed.
- We believe that 'localism' disappears and the intention is not to discuss issues locally. The proposal will go against the Localism Act 2011.
- If a small community councils have to join with larger councils this can affect the Welsh language and effect rural communities. We believe that the Welsh rural areas are losing its voice.
- We are concerned that there will be more responsibility on community councilors since we expect them to do more voluntary work. We would like to know where the new volunteers will come from.
- We support the One Voice Wales comments on the White Paper.

38.11 RESOLVED to join CVSC at a cost of £15
38.12 PROPOSALS TO THE ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES - RESOLVED to send the following proposals:
- Do the objectives of the White Paper: Reforming Local Government contradict the Localism Act.
- Has the content of the White Paper already been accepted?

38.13 LOCAL GOVERNMENT - the Clerk to send a copy to the members.
38.14 ADOPTION OF TELEPHONE KIOSK - received correspondence from BT and RESOLVED to think about the matter.

38.15 OTHER ISSUES
38.15.1 The road past the toilets Llangernyw is difficult to walk on.
38.15.2 White lines need repainting near Cefn Isa and is a dangerous place.
38.15.3 Sign near Ainon Chapel has turned.
38.15.4Tree leaning near Ainon layby.
38.15.5 Cllr Dilwyn Roberts to be contacted to complain there is no response to our complaints from the Environment Department.
38.15.6 The hole near Bryn yr Aur still not closed.
38.15.7 River in Gwytherin playground eroding the field and the banks; very dangerous.
38.15.8 BT Manhole near Yr erw, Gwytherin - hole underneath.
38.15.9 Hearse Shed, Gwytherin - the roof leaks and need to ask Ms. Goulbourne to clear the content so that we can go and check of the roof.
38.15.10 Need to contact Harlequin re Pen y Fron mast - the company has received funding but the work has not begun.
38.15.11 Internet signal very slowl in the area at the moment.
38.15.12 Wall unfinished on Pandy Tudur bridge.
38.15.13 Ms Antoinette Sandbach to be asked to write to the County Council re route 90 near Factory, Gwytherin. Tecwyn Evans would be ready to meet her on the site.
38.15.14 Pavement opposite Y Graig, Llangernyw cracked.
38.15.15 Scipiau - the Clerk had cancelled Llangernyw skips because of the Environmental Day in the village but RESOLVED to book one for Llangernyw in addition to Gwytherin and Pandy and to make posters and information slips.

38.16 BILLS
Gwytherin Centre (Room hire) £ 30
The Gadlas (Cutting cemeteries) £ 7
JK & E Roberts (Cemetery Gwytherin) £ 294.12
Clerk Salary and Cost £ 871.86
Inland Revenue £ 6.20
Community Translation £94.59
CVSC £ 15

The meeting came to an end at 9.55 pm

Approved the Minutes ..Elen H Edwards................................ Date ..20/5/15.............................